Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Seibiant Preswyl Partridge Road**

**Caerdydd**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gwasanaeth Seibiant Preswyl Partridge Road

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Mirus Cymru |
| Lleoedd cofrestredig | 3 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 04/05/2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf a gwelsom fod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n well ac wedi'i hadolygu'n ddiweddar. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn goruchwylio'r gwasanaeth. Mae cynlluniau personol ar waith ac yn rhoi gwybodaeth bwysig am y person a sut mae'n cyfleu ei anghenion. Mae'r darparwr yn rhoi amrywiaeth o systemau ar waith a fydd yn gwella trefniadau goruchwylio a chofnodi'r rheolwyr. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lle cartrefol a chroesawgar i'r bobl dreulio amser i ffwrdd o'u cartref. Gwnaethom nodi bod angen mynd i'r afael â rhai ardaloedd o'r amgylchedd, a chymerodd yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli gamau cyflym i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain ar ddiwrnod yr arolygiad. Gall y bobl gynllunio gweithgareddau o'u dewis yn ystod eu harhosiad. Ceir staff gofal cyson sy'n adnabod y bobl yn dda iawn ac yn deall eu hanghenion. Mae'r staff gofal a'r rheolwyr gwybodus a phrofiadol yn cael lefelau priodol o hyfforddiant a chymorth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i oruchwylio a chasglu adborth uniongyrchol. Cawsom adborth ardderchog gan berthnasau a ddywedodd fod y gwasanaeth yn rhwydwaith cymorth hanfodol iddynt. Disgrifiodd perthynas un unigolyn y gwasanaeth fel "*God send*."

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda iawn. Gall y bobl siarad yn agored â'r staff gofal. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r bobl yn cyfleu eu hanghenion. Dywedodd perthnasau wrthym y gallent godi unrhyw faterion â'r tîm rheoli. Gofynnir i'r bobl a'u perthnasau i roi adborth ar y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad yn uniongyrchol â'r bobl i gael adborth. Mae'r bobl yn gwneud y pethau y maent am eu gwneud wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Ystyrir anghenion ac amgylchiadau unigol y bobl, a chaiff y rhain eu cofnodi yn eu cynllun personol.

Mae'r bobl yn mwynhau ymweld â'r gymuned leol a chymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gadw'n heini drwy fowlio a nofio. Caiff anghenion iechyd y bobl eu cofnodi yn eu cynllun personol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fynd i apwyntiadau yn yr ysbyty er mwyn cynnal eu hiechyd. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi gwybodaeth am anghenion iechyd meddwl y bobl. Gall y bobl gael cymorth i gymryd eu meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau fod eu hanwyliaid bob amser yn edrych ymlaen at fynd yno.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r asesiadau risg yn helpu i reoli a lliniaru risgiau i'r bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda iawn ac yn deall sut maent yn cyfleu eu hemosiynau. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar sut i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael y gwiriadau recriwtio priodol i sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r bobl, eu perthnasau a'r staff gofal yn teimlo'n gyfforddus i godi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr neu'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae gan y gwasanaeth ardaloedd cartrefol lle y gall y bobl ymlacio ac mae'r ystafelloedd gwely unigol yn cynnig preifatrwydd. Mae gardd ar gael. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw yn yr ardal hon er mwyn sicrhau ei bod yn groesawgar ac yn hawdd ei defnyddio. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod gwaith wedi'i gynllunio i adnewyddu'r ardd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae rhywfaint o ôl traul, y mae'r rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwybodol ohono. Cymerodd yr Unigolyn Cyfrifol gamau cyflym i fynd i'r afael â'r angen am gyfyngwyr gwell ar y ffenestri sy'n cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel a chynhelir gwiriadau rheolaidd ar y systemau tân a'r arferion iechyd a diogelwch.

## Gofal a Chymorth

Cafodd y cynlluniau personol eu hadolygu'n ddiweddar. Mae'r cynlluniau manwl yn cynnwys gwybodaeth bwysig, fel sut mae'r bobl yn cyfathrebu. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi y gall y bobl ddewis cyfathrebu yn Gymraeg, gan fod rhai o'r staff gofal yn siarad Cymraeg. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am ddiagnosis meddygol y bobl, eu hanes, eu hoff bethau a'u llesiant cyffredinol. Mae angen adolygu rhai adrannau o'r cynllun yn fanylach er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd y bobl. Mae'r darparwr wrthi'n rhoi dogfennau newydd ar waith a fydd yn helpu i nodi canlyniadau clir ar gyfer y bobl a dangos eu bod wedi'u llunio ar y cyd.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth hanfodol i ofalwyr llawn amser pan na fyddant yn gallu cyflawni eu dyletswyddau gofalu drwy roi llety i'r bobl a'u cadw'n ddiogel. Dywedodd perthnasau wrthym fod y gwasanaeth yn rhwydwaith cymorth hanfodol iddynt. Caiff y bobl eu cefnogi i feithrin sgiliau byw'n annibynnol ac i gynllunio gweithgareddau o'u dewis fel nofio, bowlio, a mynd i'r sinema. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod “*over the moon*” â lefel y gofal a'r cymorth a bod eu hanwyliaid yn edrych ymlaen at fynd i'r gwasanaeth seibiant. Mae rhai o'r bobl wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau proses bontio ddidrafferth ar gyfer derbyniadau newydd er mwyn hwyluso'r broses a sicrhau bod y person yn teimlo'n ddiogel. Dywedodd un perthynas “*they are absolutely wonderful people.*”

Caiff meddyginiaeth y bobl ei monitro a chaiff gwiriadau stoc eu cwblhau pan fo angen. Nid yw'r cofnodion meddyginiaeth bob amser yn defnyddio'r codau priodol i ddangos pan nad yw'r person yn defnyddio'r gwasanaeth, a all achosi dryswch. Rhoddodd y rheolwyr sicrwydd i ni y byddent yn mynd i'r afael â hyn. Mae'r proffil meddyginiaeth yn esbonio'r math o gymorth sydd ei angen ar y bobl o ran eu meddyginiaeth, a rhifau cyswllt pwysig ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol. Dywedodd perthnasau wrthym fod y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn mynd i apwyntiadau iechyd pan fo angen.

Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng wedi cael eu datblygu ar y cyd â gweithiwr Iechyd a Diogelwch proffesiynol. Mae'r rhan fwyaf o'r asesiadau risg gofynnol ar waith ac yn cynnwys lefel dda o fanylder. Mae gan rai o'r bobl gyfarpar fel monitorau a ddefnyddir pan fyddant yn cysgu, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel gyda'r nos. Mae angen i'r cofnodion o gyfranogiad y bobl a phenderfyniadau  gynnwys mwy o dystiolaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud nifer o welliannau ers yr arolygiad diwethaf,  gan gynnwys ailaddurno a phrynu llenni a deunyddiau a charpedi newydd. Mae gardd ar gael. Mae angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw yn yr ardal hon er mwyn ei gwneud yn groesawgar. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod ganddynt gynlluniau ar waith i wella'r ardal hon a'i hadnewyddu.

Mae mesurau rheoli heintiau da ar waith, fel byrddau torri o liwiau gwahanol, labelu bwyd sydd wedi'i agor a gwirio tymereddau. Gellid gwella hyn drwy greu amserlen ar gyfer gwaith glanhau trylwyr a gwaith glanhau dyddiol; dywedodd y tîm rheoli wrthym y byddai hyn yn cael ei wneud. Caiff ymarferion a gwiriadau tân rheolaidd eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn parhau'n ddiogel. Mae cyfarpar diogelwch tân ar waith ac yn cael eu harolygu. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau a gwiriadau rheolaidd o'r amgylchedd. Gwnaethom nodi bod angen i'r cyfyngwyr ar y ffenestri gael eu haddasu fel eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol sydd ar waith ar gyfer cartrefi gofal. Cymerodd yr Unigolyn Cyfrifol gamau cyflym i fynd i'r afael â hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael budd o dîm rheoli mawr. Mae rhai o'r rheolwyr wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac yn cynnig cyfoeth o wybodaeth a phrofiad. Dywedodd un perthynas fod y tîm rheoli yn *"wonderful"* a bod y rhan fwyaf o'r staff gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers amser hir, sy'n cynnig parhad i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y staff gofal a'r perthnasau wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus y byddai'r tîm rheoli yn ymdrin ag unrhyw faterion a godwyd yn brydlon ac yn briodol.

Mae'r staff gofal yn cael cyfleoedd rheolaidd i roi adborth ar y gwasanaeth ac i drafod eu datblygiad personol drwy sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Mae'r staff gofal yn cael lefelau da o hyfforddiant sy'n benodol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r holl staff gofal wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r gwiriadau recriwtio yn dda. Caiff cofnodion y staff gofal eu cadw ar-lein a gall gymryd llawer o amser i gael gafael arnynt. Gwnaethom drafod pwysigrwydd sicrhau bod y rheolwyr yn gallu cael gafael ar gofnodion y staff pan fo angen. Dywedodd yr Unigolyn Cyfrifol wrthym y byddai'n mynd i'r afael â hyn. Dywedodd pob gweithiwr gofal y gwnaethom siarad ag ef wrthym ei fod wrth ei fodd â'i swydd, yr awyrgylch teuluol a diwylliant y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau fod y staff yn "*absolutely amazing*" and "*go above and beyond*." Dywedodd un person *"they are a God send."*

Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael cyfleoedd drwy'r flwyddyn i roi adborth ar y gwasanaeth drwy arolygon. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth i gwrdd â'r bobl a'r staff gofal. Mae angen i'r adborth a geir gan y staff gofal gael ei gofnodi'n well. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut y gall y gwasanaeth wella a'r hyn y mae'n ei wneud yn dda. Mae'n dangos rhai straeon cadarnhaol am brofiadau'r bobl wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Byddai cynnwys trosolwg a dadansoddiad ehangach o'r gwasanaeth yn cryfhau'r ddogfen. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Mae'r rheolwyr yn cwblhau archwiliadau o'r cofnodion dyddiol er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 16 | Nid yw'r cynlluniau personol wedi cael eu hadolygu bob tri mis | Cyflawnwyd |
| 59 | Nid yw'r cofnodion wedi cael eu diweddaru | Cyflawnwyd |
| 73 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/04/2024